



Disgwyliwn am ddyfodiad Crist! Mae'n rhoi pleser mawr i mi gyfarch yr eglwysi a'r enwadau sy'n aelodau o Cytûn, a'n grwpiau lleol a rhanbarthol, gydag anogaeth a bendithion yr Adfent. Mewn cynifer o ffyrdd, fel offeryn eciwmenaidd cenedlaethol Cymru, mae Cytûn wedi'i synnu gan haelioni gwych gras Duw, nid yn unig wrth drefnu gweithredoedd proffil uchel o dystiolaethu a dathliadau cenedlaethol, ond hefyd drwy'r nifer o bethau hynny y mae Cristnogion unigol wedi gofyn i ni eu cyflawni yn ystod 2011. Bu Duw gyda ni mewn cynifer o ffyrdd.

**Ffydd a Threfn – Tystiolaeth** Tynnodd ein cylchlythyr diwethaf sylw at lwyddiant tystiolaeth yr eglwysi yn Eisteddfod yr Urdd yn Abertawe. Symudodd Cytûn ymlaen i fwy o anogaeth yn y Sioe Frenhinol yn Llanellwedd. Cyfarfu Cristnogion ar gyfer gweddi a chymdeithas gan ddarparu llwyfan gadarn ar gyfer gwaith cynyddol y tîm caplaniaeth cefn gwlad. Roedd fel pe bai Duw wedi mynd o'n blaen wrth ddarparu cysylltiadau a thrafodaethau a oedd yn hynod fugeiliol ac efenglyddol. Mae'r gwaith hwnnw'n parhau wrth i eglwysi Cymru gael eu hannog i ystyried y posibilrwydd o ddatblygu Canolfan Gristnogol Cefn Gwlad. Mae'r trafodaethau'n parhau.

Gweithiodd yr eglwysi lleol yn ardal Wrecsam yn arbennig o galed wrth ddarparu cefnogaeth i stondin Eglwysi Cytûn yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Rhoddwn ddiolch am y gefnogaeth amhriadiwy honno. Cyfarfu Cristnogion o bob rhan o Gymru a'r tu hwnt i rannu cymdeithas, i addoli'n gyhoeddus ac i groesawu eraill mewn gweithredoedd o efengylu. Eleni, rhoddodd Cytûn sylw i waith parhaus nifer o asiantaethau Cristnogol. Rhoddwyd sylw hefyd i waith yr eglwysi dros bobl dlawd ledled y byd drwy Gymorth Cristnogol a CAFOD. Roedd presenoldeb CAFOD ar stondin yr eglwysi yn anogaeth i edrych y tu hwnt i'r materion a drafodir ac a godir mewn cyfarfodydd Eisteddfodol. Unwaith eto, nodwyd gollwng y bom atomig ar Hiroshima a Nagasaki, a gweddiwyd dros heddwch. Diolch yn fawr iawn eto i Rhian Linecar am gydlynw ein tystiolaeth yn y digwyddiadau cenedlaethol hyn.

Yn gynnar yn y flwyddyn newydd, daw ceisiadau ger eich bron yn gofyn am gefnogaeth gwirfoddolwyr yn nigwyddiadau cenedlaethol Cymru yn 2012. Wrth i'r gwaith gynyddu, felly hefyd yr angen am wirfoddolwyr.



**Diolchgarwch** Bu ein dathliadau yn rhai cenedlaethol a phersonol. Mae Cytûn wedi llawenhau gyda chymuned Gatholig Cymru yn y paratodau ar gyfer ymddeoliad yr Esgob Edwin Regan o Wrecsam. Diolchwn i Dduw am weinidogaeth yr Esgob Edwin ledled Cymru ac am ei ymrwymiad hirdymor i eciwmeniaeth a sefyllfa pobl dlawd y byd, yn enwedig yn Lesotho. Daeth yr Offeren a ddathlwyd yn Nolgellau a'r cinio

diolchgarwch yn Rhiw Goch, Trawsfynydd ar Fedi 24ain, â'r gymuned Gristnogol ynghyd yng Nghymru mewn gweithred orfoleddus o ddiolchgarwch. Mae gan Riw Goch gysylltiadau cryf â'r Sant John Roberts. Dymunwn yn dda i'r Esgob Edwin at y dyfodol. Bydd yn ein gweddiâu o hyd.

**Hyfforddiant** Bu Cytûn hefyd yn weithgar wrth gefnogi gweinidogaeth Gristnogol yng Nghymru. Roedd y cwrs Croeso i Gymru eleni yn llwyddiannus unwaith eto. Cafodd ei gynnal yng Ngholeg Mihangel Sant, Llandaf, ac mae'n cyflwyno hanes ein cenedl, wedi'i lunio gan ffydd a gwleidyddiaeth, i weinidogion sy'n newydd i Gymru. Yr aelod o'n staff sy'n arwain yng nghyswllt y cwrs hwn yw Geraint Hopkins.

**Caplaniaeth** Mae Cytûn yn parhau mewn cysylltiad cyson gyda'r rhai hynny sy'n gwasanaethu fel caplaniaid yng ngholegau, ysbytai a charchardai Cymru. Wrth ddarparu cefnogaeth litwrgaidd a bugeiliol, mae Cytûn hefyd yn gwasanaethu'r rhai hynny'n sy'n ymwneud â darparu gofal bugeiliol yn y gwasanaethau. Wrth weithio gyda phartneriaid megis Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru, mae Cytûn wedi ceisio sicrhau bod arian cyhoeddus ar gael o hyd i gaplaniaethau, ac wedi dod ag amrywiaeth o gymunedau ffydd ynghyd er mwyn cefnogi caplaniaethau a bod ag ymwybyddiaeth o bwysigrwydd eu gwaith fel gweithredoedd o wasanaeth cyhoeddus. Bu'r gwaith hwn yn uchel ar agenda Cyngor Rhyng-ffydd Cymru.

**Y Cyfamod** Fel yr adroddwyd yng nghylchlythyr diwethaf Cytûn, mae Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol yn datblygu agenda cyffrous ym maes gweinidogaeth ac addoliad. Fe'ch anogir i nodi'r Ymgynulliad a gynhelir yn y Neuadd Fawr, Aberystwyth ar ddydd Sadwrn Hydref 13eg, 2012, yn eich dyddiaduron. Mae rhagor o fanylion ar gael gan Rhian Linecar ar 02920 464371. Rhoddir yr anerchiad allweddol gan y diwinydd a'r gweinidog y Parchedig Ddr Olav Fykse Tveit, Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngor Eglwysi'r Byd. Yn naturiol, bydd prif ffocws yr Ymgynulliad ar waith yr Eglwysi Cyfamodol yng Nghymru: Anglicanaidd, Presbyteraidd, Methodistaidd, Yr Eglwys Unedig Ddiwygiedig a'r Bedyddwyr Cyfamodol. Estynnir gwahoddiad i westeion o holl eglwysi ac enwadau Cytûn i'r Ymgynulliad, ac i gymryd rhan yn ei drafodaethau a'i addoliad.

**Lleol** Yn ogystal â gofalu am brosiectau cenedlaethol, mae Cytûn hefyd yn ceisio cefnogi eglwysi lleol yn eu gweithredodd rheolaidd o addoliad. Ers yr haf, yn eu plith mae eglwysi ym Mhontypridd, Y Groes-faen, Caerdydd, Trecynon, Pont-y-clun, Penarth a Wrecsam. Roedd arwyddo Cyfamod a Chyfansoddiad Partneriaeth Eciwmenaidd Leol Bae Caerdydd ym mis Hydref yn garreg filltir o bwys ac yn ffynhonnell anogaeth. Gwnaed ymrwymadau hefyd i helpu nifer o eglwysi wrth iddyn nhw ganolbwyntio ar yr Wythnos o Weddi dros Undod Cristnogol ym mis Ionawr.

**Gweithgareddau Rhyng-ffydd** Gyda thristwch mawr y clywsom am farwolaeth Alan Schwartz. Bu'n un o arloeswyr y broses ryng-ffydd yng Nghymru am nifer o flynyddoedd. Bydd y gymuned Iddewig yn ne Cymru'n gweld ei eisiau'n fawr. Trefnwyd trafodaeth bwysig rhwng Cristnogion a Mwslemiaid yn yr Amgueddfa Genedlaethol ar ddiwedd Tachwedd, gan adeiladu ar ei gyfraniad. Mae eraill o'r tu allan i Gymru wedi nodi sut y mae trafodaethau rhyng-ffydd wedi magu deinameg nodedig yng Nghymru. Yn ogystal â chyd-fyfyrto, mae arweinwyr yn arbennig wedi dod yn ffrindiau.

**Offerynnau Eciwmenaidd Cenedlaethol Eraill** Roedd hi'n bleser bod yn bresennol yn y Cyfarfod Rhyng-Eglwysig Gwyddelig eleni. Cyfarfu arweinwyr eglwysi Gwyddelig o nifer o draddodiadau Cristnogol er mwyn archwilio'r thema gobaith, mewn cyfarfod rhyng-eglwysig ddiwrnod o hyd, ac addoliad cyhoeddus gyda'r nos, ym Melfast. Rhoddwyd yr anerchiad

allweddol gan yr ysgolhaig nodedig ar y Testament Newydd, yr Athro N.T. (Tom) Wright, a ddisgrifir gan y cylchgrawn TIME fel un o'r ffigyrau mwyaf trawiadol ym maes myfyrdod Cristnogol.



Eleni cynhaliwyd y Cyfarfod Rhyng-Eglwysig Gwyddelig, a gychwynnodd yn Ballymascanlon yn 1973, yng Ngholeg Diwinyddol Edgehill, ac fe'i dilynwyd gan wasanaeth o ddatliad ac addoliad gyda'r nos yn Eglwys Bresbyteraidd Fisherwick, Belfast. Y thema oedd gobaith, mewn cyfnod o ddadrithiad cynyddol tuag at sefydliadau fel yr eglwys, yr heriau yn sgil y canmlwyddiannau sydd i ddod yn ddegawd nesaf, yr ansicrwydd economaidd byd-eang a'r pryderon ar gyfer dyfodol ein cymunedau a'n pobl ifanc.

Roedd yr ymweliad â Belfast yng nghwmni cydweithwyr o'r Alban, Lloegr ac Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon yn ysbrydoliaeth ac yn werth chweil. Mae'n braf gweld bod Eglwysi yn Iwerddon wedi cytuno i ganolbwyntio ar synnwyr newydd o hunaniaeth a phwrpas: "Wedi'n cysylltu yng Nghrist".

**Materion Cyhoeddus – Ymfudo** Ar hyn o bryd, Cytûn sy'n darparu'r Gadeiryddiaeth ar gyfer Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru, sy'n cynnal trosolwg strategol ar faterion megis ceisio lloches, ymfudo economaidd, masnachu mewn pobl a gofal dros gymunedau teithwyr a Roma Cymru. Mae llawer o'r gwaith hwn wedi'i fwydo yn ôl i Rwydwaith Cyfiawnder Hil Cytûn sydd wedi cadw golwg fanwl ar anghenion yr eglwys a erlidiwyd yn fyd-eang ac yma yng Nghymru. Mynegwyd pryder ynghylch gofal y tröedigion Cristnogol o gefndiroedd ffydd eraill sydd wedi setlo yng Nghymru. Tynnwyd sylw at sefyllfa'r gymuned Gristnogol yn Pakistan yn y gwasanaeth carolau aml-ethnig a gynhaliwyd yng Nghaerdydd yn ddiweddar o dan weinidogaeth y Parchedig Irvan John. Cafodd yntau loches yn y DU, gyda'i wraig Raheela a'u plant Karam, Iram, Iraj a Daud Irfan, ym mis Mai 2006, ar ôl ffoi rhag erledigaeth yn Pakistan. Maen nhw'n byw yng Nghaerdydd, a chyflogir Irfan gan yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru i weithio gyda chynulleidfaoedd o leiafrifoedd ethnig, i fod yn gyswllt rhwng yr eglwysi hyn a'r Synod, ac i gefnogi ceiswyr lloches a ffoaduriaid.

Ar ddiwedd Tachwedd, mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, roedd yn bleser darparu hyfforddiant ar faterion yn ymwneud â cheisio lloches ac ymfudo ar gyfer myfyrwyr yn Ysgol Morgan Llwyd. Yn ystod sesiwn y bore rhoddodd Vitalis Kayirasora adroddiad pwerus ar sut y bu iddo yntau, fel ceisiwr lloches o Gristion, ffoi rhag erledigaeth yn Zimbabwe.

**Fforwm Cymunedau Ffydd** Ddwywaith y flwyddyn, mae arweinwyr cymunedau ffydd Cymru yn cyfarfod â'r Prif Weinidog, Carwyn Jones, er mwyn trafod nifer o faterion. Yng nghyfarfod mis Hydref, rhoddodd Chris Jones, Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru, gyflwyniad ar roi organau. Mae'r drafodaeth ynghylch mater caniatâd tybiedig yn parhau. Hefyd ar yr agenda roedd ymchwil arloesol Cymru i Droseddau Casineb, a Rhaglen Lywodraethol Llywodraeth Cymru.

**Cymru – Cymdeithas Foesol?** Mae Cytûn wedi cychwyn ar y dasg o ystyried sut mae ailedrych ar yr adroddiad sylweddol a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 1996 ar gyflwr Cymru fel cymdeithas foesol. O dan arweiniad Geraint Hopkins o'r tîm staff, cyflwynir adroddiad pellach i'r Bwrdd yn y gwanwyn ynghylch sut mae edrych yn ôl ar ddadansoddiad blaenorol yr eglwysi, o gyd-destun gwleidyddol ac economaidd gwahanol iawn.

**Cenedl Noddfa** Mae'r gwaith ar adeiladu'r partneriaethau a'r ymrwymadau angenrheidiol er mwyn gwneud Cymru'n Genedl Noddfa gyntaf y DU wedi symud yn ei flaen yn dda. Mae partneriaid newydd yn ymwneud â'r broses yng Nghaerdydd a gwneir gwaith pellach yng Nghasnewydd a Wrecsam yn y flwyddyn newydd. Bydd y mater hefyd i'w drafod yn y Fforwm Cymunedau Ffydd nesaf gyda'r Prif Weinidog.

**Bwrdd a Grŵp Galluogi Cytûn** Yn gynnar ym mis Tachwedd, cyfarfu Grŵp Galluogi a Bwrdd Cytûn yn y Drenewydd. Cafodd Patrick Coyle ei ethol yn Gadeirydd Cytûn ac apwyntiwyd Deborah Rowlands, o Gymdeithas y Cyfeillion, yn gyfarwyddwr newydd. Diolchwyd i'r holl gyfarwyddwyr ar ddiwedd eu cyfnod am eu gwasanaeth i Cytûn ac i eciwmeniaeth, yn enwedig Catherine James a Peter Baines. Derbyniwyd nifer o grwpiau lleol i aelodaeth y Grwpiau Galluogi a chafwyd adroddiadau llafar calonogol gan gynrychiolwyr o Fangor, Merthyr, Castell Nedd a Waunfawr.

Roedd y Grŵp Galluogi yn falch o dderbyn adroddiad ar weithgareddau Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon gan Bob Fyffe, fu'n trafod nifer o ddatblygiadau: ymweliad ag Israel a Palestina, y Gynhadledd Rhwydweithiau arfaethedig, ystyried y terfysgoedd yn ninasoedd Lloegr, paratodau ar gyfer yr Wythnos o Weddi ar gyfer Undod Cristnogol, deunyddiau ar gyfer y Garawys 2012 ac adnoddau ar gyfer Jiwbilí Ddiemwnt y Frenhines yn 2012. Tynnwyd sylw hefyd at yr her o baratoi deunyddiau dwyieithog ar gyfer y Sul Cyfiawnder Hiliol eleni. Mae Eglwysi Ynghyd yn ymwybodol o'r her o baratoi deunyddiau Cymraeg. Hefyd arweiniodd Bob Fyffe drafodaeth ddiddorol ar fodolau o weithio eciwmeniaidd yn y dyfodol.

Cytunwyd i gynnal y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol a'r Grŵp Galluogi'r flwyddyn nesaf ar ddydd Mawrth 19eg o Fehefin yn yr Amwythig.

**Cyfnod Mamolaeth** Mae Cytûn yn dymuno apwyntio Swyddog Gweinyddol dwy-ieithog ar gyfer cyfnod mamolaeth rhwng Mawrth ac Awst 2012. Y mae'n apwyntiad amser llawn. Ceir manylion pellach ar wefan Cytûn a gofynnir am geisiadau drwy lythyr a CV ar ebost (aled@cytun.org.uk) erbyn 13eg o Ionawr, 2012.

Pob Bendith,



Y Parchedig Aled Edwards OBE  
Prif Weithredwr Cytûn

Cytûn: Eglwysi ynghyd yng Nghymru, 58 Richmond Road, Caerdydd CF24 3UR 029 2046  
4375 post@cytun.org.uk Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng nghymru a Lloegr | Rhif: 05853982 |  
Enw Cofrestredig: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" | Mae  
Cytûn yn elusen gofrestrdedig | Rhif: 1117071